



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cod Ymarfer ar Gyfer Atal a Rheoli Heintiau Sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd

COD YMARFER AR GYFER ATAL A RHEOLI HEINTIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â GOFAL IECHYD

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r GIG yng Nghymru wedi ymrwymo i ymagwedd o ddim goddefgarwch o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HGGI) y gellir eu hatal. Mae Sefydliadau'r GIG yng Nghymru wedi gwneud gwelliannau sylweddol wrth leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys *Staphylococws awrëws* sy'n gwrthsefyll *Methisilin* (MRSA), heintiau llif y gwaed a heintiau a achosir gan *Clostridium difficile*; fodd bynnag gellir, a rhaid, gwneud mwy i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth a chyflawni safonau o'r radd flaenaf gyda golwg ar ddiogelwch defnyddwyr gwasanaeth. Mae angen i atal a rheoli heintiau effeithiol fod yn *fater i bawb* ac mae'n rhaid i hynny fod yn rhan annatod o arferion gofal iechyd bob dydd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.
- 1.2 Mae'r Cod Ymarfer (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Cod) yn adeiladu ar *Ymrwymiad i'r Pwrpas: Dileu heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HGGI) y gellir eu hatal: Fframwaith o gamau gweithredu i gyrrff gofal iechyd yng Nghymru 2011*.¹ Mae'n nodi'r lleiafswm o drefniadau atal a rheoli heintiau sy'n angenrheidiol ar gyfer darparwyr gofal iechyd y GIG yng Nghymru. Mae'r naw elfen a nodir isod yn cynrychioli safonau y disgwylir i sefydliadau eu cyflawni'n llawn ar draws yr ystod o wasanaethau gofal iechyd a ddarperir ganddynt. Dylai cydymffurfiaid â'r safonau hyn fod yn amlwg i ddefnyddwyr gwasanaethau, ymwelwyr, staff a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Gall darparwyr gofal iechyd nad ydynt yn rhan o'r GIG yng Nghymru gyfeirio at ofynion y Cod i lywio'r safonau priodol ar gyfer atal a rheoli heintiau yn eu sefydliadau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.
- ¹ [Fframwaith o gamau gweithredu](#)
- 1.3 Dylid pwysleisio y bydd y gofynion y Cod yn atgyfnerthu a chodeiddio yr hyn a ddisgwylir eisoes gan sefydliadau gofal iechyd y GIG, yn hytrach na chyflwyno disgwyliadau newydd.

2. Cwmpas

- 2.1 At ddibenion y Cod, bydd HGGI yn cyfeirio at heintiau sy'n digwydd o ganlyniad i gysylltiad â'r system gofal iechyd yn ei hystyr ehangaf – o'r gofal a ddarperir yn y cartref; ymarfer cyffredinol; gofal cartref nyrsio a gofal mewn ysbytai aciwt; neu haint sy'n cael ei ddal gan weithwyr gofal iechyd yn ystod eu dyletswyddau gyda GIG Cymru.
- 2.2 Mae'r Cod yn berthnasol i holl sefydliadau gofal iechyd y GIG (Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau) yng Nghymru ac i'r holl wasanaethau a ddarperir mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. I'r sefydliadau hynny nad ydynt yn darparu gwasanaethau i gleifion mewnol, mae adrannau perthnasol y Cod yn gymwys. Yn ogystal, mae'n rhaid i sefydliadau gofal iechyd y GIG sicrhau pan fyddant yn contractio neu gomisiynu gwasanaethau bod gofynion y Cod hwn yn cael eu hadlewyrchu yn glir mewn contractau a threfniadau comisiynu.
- 2.3 Gall darparwyr nad ydynt yn rhan o ofal iechyd y GIG gyfeirio at ofynion y Cod i lywio'r safonau priodol ar gyfer atal a rheoli heintiau yn eu sefydliadau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.
- 2.4 Mae'r Cod yn cyfeirio at stiwardiaeth gwrthficrobaidd a dadheintio dyfeisiau meddygol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dogfennau arweiniad pellach ar wahân, yn y ddau faes hyn, a fydd yn cyd-fynd â'r Cod hwn a dogfennau polisi presennol megis y *Fframwaith o Gamau Gweithredu*.
- 2.5 Nid yw'r Cod yn disodli'r gofyniad i gydymffurfio â deddfwriaeth sy'n berthnasol i wasanaethau gofal iechyd, er enghraifft, *Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974*; Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002; a deddfwriaeth diogelwch bwyd berthnasol.
- 2.6 Bydd tystiolaeth o gydymffurfio â'r safonau yn y Cod mewn rhai meysydd yn cynnwys cwrdd â safonau angenrheidiol sy'n bodoli eisoes, megis y rhai a ddisgrifir ym Memoranda Technegol Iechyd Cymru a safonau technegol eraill yn ogystal â safonau cenedlaethol glanweithdra mewn cyfleusterau gofal iechyd.

3. Y Safonau

3.1 Nodir y naw safon yma, rhoddir manylion ar sut i asesu cydymffurfiad â'r safonau hyn yn adrannau 4.1 i 4.9.

Safon 1:	Mae'n rhaid i strwythurau sefydliadol priodol a systemau rheoli ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau fod yn eu lle.
Safon 2:	Dylai'r amgylchedd ffisegol gael ei gynnal a'i lanhau i safon sy'n hwyluso Atal a Rheoli Heintiau a lleihau'r risg o haint.
Safon 3:	Rhaid i wybodaeth addas a chywir ar heintiau fod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth, rhai sy'n ymweld â hwynt a'r cyhoedd.
Safon 4:	Rhaid darparu gwybodaeth addas, amserol a chywir ar heintiau i unrhyw berson sy'n ymwneud â darparu cymorth pellach neu ofal nyrsio/meddygol pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei symud o un sefydliad i'r llall neu o fewn yr un sefydliad.
Safon 5:	Mae'r holl staff a gyflogir i ddarparu gofal ym mhob lleoliad yn cymryd rhan lawn yn y broses o Atal a Rheoli Heintiau.
Safon 6:	Darperir cyfleusterau ynysu digonol i gefnogi Atal a Rheoli Heintiau effeithiol.
Safon 7:	Rhaid i bolisiau ar Atal a Rheoli Heintiau fod yn eu lle ac ar gael yn hwylus i'r holl staff.
Safon 8:	Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, mae staff yn rhydd o heintiau y gellir eu dal neu eu trosglwyddo yn y gwaith, ac yn cael eu hamddiffyn rhag dod i gysylltiad â heintiau o'r fath.
Safon 9:	Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi a'u haddysgu'n briodol mewn Atal a Rheoli Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

4. Maen Prawf ar gyfer cydymffurfiad

4.1 Bydd angen i sefydliadau GIG Cymru ddangos cydymffurfiad â'r meini prawf hanfodol ar gyfer pob safon fan lleiaf. Dylai cydymffurfio â'r meini

prawf hyn gael ei weld fel sylfaen ar gyfer adeiladu systemau arloesol o ansawdd uchel i atal a rheoli heintiau.

Meini Prawf ar gyfer Safon 1: Mae'n rhaid i strwythurau sefydliadol priodol a systemau rheoli ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau fod yn eu lle.

Mae'n rhaid i gorff GIG Cymru sicrhau bod ganddo drefniadau priodol yn eu lle ar gyfer, ac mewn cysylltiad â, dyrannu cyfrifoldeb i staff, contractwyr a phobl eraill sy'n ymwneud â darparu gofal iechyd er mwyn diogelu defnyddwyr y gwasanaeth rhag y risgiau o ddal heintiau. Yn benodol, mae'n rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys y canlynol:

- datganiad ar lefel y Bwrdd yn amlinellu ei gyfrifoldeb ar y cyd am leihau'r risg o haint a'r dulliau cyffredinol a ddefnyddir ganddo i atal a rheoli risgiau o'r fath;
- y dulliau y mae'r Bwrdd yn bwriadu eu defnyddio i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i sicrhau atal a rheoli heintiau effeithiol HGGI. Dylai'r rhain gynnwys gweithredu fframwaith sicrwydd², rhaglen atal a rheoli heintiau³, rhaglen stiwardiaeth gwrthficrobaidd a seilwaith atal a rheoli heintiau⁴ priodol;
- sicrhau bod y staff, gwirfoddolwyr, contractwyr a phobl eraill perthnasol y mae eu dyletswyddau arferol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn ymwneud â gofal defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn hyfforddiant, gwybodaeth a goruchwyliaeth addas a digonol ar y mesurau sydd eu hangen ar gyfer atala rheolui heintiau a lle bo'n berthnasol, ar stiwardiaeth gwrthficrobaidd; a
- sicrhau bod y cyfrifoldeb dros atal a rheoli heintiau gan gynnwys stiwardiaeth gwrthficrobaidd wedi'i ddatganoli yn effeithiol i'r holl grwpiau proffesiynol mewn sefydliad GIG Cymru ac arbenigeddau clinigol, cyfarwyddiaethau clinigol ac anghlinigol a phob grŵp tebyg.

² Dylai gweithgareddau i ddangos bod atal a rheoli heintiau yn rhan annatod o sicrhau ansawdd gynnwys y canlynol:

- adroddiadau a chyflwyniadau rheolaidd i'r bwrdd gan yr arweinydd HGGI. Dylai'r rhain gynnwys dadansoddiad o dueddiâu ar gyfer heintiau a chydymffurfio â rhaglenni archwilio;
- adroddiadau rheolaidd ac aml ar HGGI a materion cysylltiedig i'r Bwrdd gan gyfarwyddiaethau clinigol a grwpiau tebyg;
- adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd am stiwardiaeth gwrthficrobaidd;
- adolygiad o ystadegau ar nifer yr achosion o organebau effor (er enghraifft, ond nid yn gyfyngedig i, *Staphylococws awrëws* sy'n gwrthsefyll *Meticillin* (MRSA) a *Clostridium difficile*) ac amodau, achosion a digwyddiadau anffodus difrifol;
- tystiolaeth bod camau priodol yn cael eu cymryd i ddelio â digwyddiadau o haint, gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, dadansoddi gwraidd y broblem;
- rhaglen archwilio i sicrhau bod polisïau wedi cael eu rhoi ar waith; ac

- adroddiad blynyddol gan yr arweinydd HGGI ar gyflwr HGGI yn y sefydliad, a sicrhau bod yr adroddiad hwnnw ar gael i'r cyhoedd.

³ Dylai'r rhaglen atal a rheoli heintiau:

- bennu amcanion sy'n cwrdd ag anghenion y sefydliad a sicrhau diogelwch defnyddwyr gwasanaeth;
- adnabod blaenoriaethau ar gyfer gweithredu;
- darparu tystiolaeth bod y polisiau perthnasol wedi cael eu rhoi ar waith i leihau heintiau, ac
- adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion y rhaglen yn adroddiad blynyddol Atal a Rheoli Heintiau.

⁴ Dylai seilwaith atal a rheoli heintiau gwmpasu'r canlynol:

- Tîm Atal a Rheoli Heintiau sy'n cynnwys cymysgedd priodol o arbenigedd nysio a meddygol (gyda hyfforddiant arbenigol ac arbenigedd o ran atal a rheoli heintiau) a chefnogaeth weinyddol a dadansoddol priodol, gan gynnwys technoleg gwybodaeth ddigonol.
- nys arweiniol penodol ar gyfer atal a rheoli heintiau a meddyg arweiniol penodol (meddyg atal a rheoli heintiau);
- arbenigedd a gallu priodol mewn stiwardiaeth gwrthficrobaidd
- strwythur llywodraethu ac adrodd sy'n weithredol ac sy'n amlwg yn cefnogi ac annog cyfathrebu risg a gwybodaeth HGGI 'O'r Bwrdd i'r Ward i'r Bwrdd'; a
- mynediad at wasanaeth labordy microbioleg cwbl achrededig sy'n cadw at Weithdrefnau Gweithredu Safonol Cymru Gyfan (neu gyfwerth) ar gyfer profi a sgrinio sbesimenau sy'n berthnasol i HGGI.

Mae rhaid i gorff GIG Cymru:

- fod wedi cynnal asesiad addas a digonol o'r risgiau i'r unigolyn sy'n derbyn gofal neu'n defnyddio'r gwasanaeth o ran atal a rheoli heintiau;
- adnabod y camau sydd angen eu cymryd i leihau neu reoli'r risgiau hynny;
- cofnodi ei ganfyddiadau mewn perthynas â'r ddau bwynt cyntaf;
- gweithredu'r camau a nodwyd; a
- rhoi dulliau priodol ar waith i fonitro'r risgiau o haint er mwyn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach i atal neu reoli haint.

Meini Prawf ar gyfer Safon 2: Dylai'r amgylchedd ffisegol gael ei gynnal a'i lanhau i safon sy'n hwyluso Atal a Rheoli Heintiau a Lleihau'r risg o haint.

Mae'n rhaid i gorff GIG Cymru, gyda golwg ar leihau'r risg o HGGI, sicrhau'r canlynol:

- bod polisiau ar gyfer yr amgylchedd⁵ darparu ar gyfer cyswllt rhwng aelodau'r tîm Atala Rheoli Heintiau a'r personau sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am rheoli ystadau a chyfleusterau;
⁵ Dylai polisiau ymdrin ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - gwasanaethau glanhau;
 - adeiladu ac adnewyddu, gan gynnwys systemau trin aern;
 - rheoli gwastraff;
 - trefniadau golchi dillad ar gyfer dillad gwely a ddefnyddiwyd ac a heintiodd;
 - cynllunio gwaith cynnal a chadw ataliol;
 - rheoli pla;
 - rheoli cyflenwadau dŵr yfed a dŵr anyfadwy;
 - lleihau'r risg o Legionella, Pseudomonas a phroblemau eraill cysylltiedig â dŵr drwy sefydlu Grŵp Diogelwch Dŵr sy'n sicrhau bod canllawiau cenedlaethol yn cael eu dilyn drwy ei Gynllun Diogelwch Dŵr; a
 - gwasanaethau bwyd, gan gynnwys hylendid bwyd a bwyd a ddygir i mewn i'r lleoliad gofal gan ddefnyddwyr gwasanaeth, staff ac ymwelwyr.
- rheolwyr arweiniol yn cael eu dynodi ar gyfer glanhau amgylchedd a diheintio offer a ddefnyddir ar gyfer triniaeth;
- dylai pob rhan o'r lleoliad lle darperir gofal iechyd fod yn addas i'r diben, cael ei gadw'n lân a'i gynnal mewn cyflwr ffisegol da;
- bod trefniadau glanhau⁶ yn manylu ar y safonau glanweithdra sy'n ofynnol ym mhob rhan o'r lleoliad a bod rhestr o amllder glanhau ar gael yn hwylus;
⁶ Dylai'r trefniadau ar gyfer glanhau gynnwys y canlynol:
 - diffiniad clir o rolau a chyfrifoldebau penodol ar gyfer glanhau;
 - amserlenni glanhau clir, cytunedig ac ar gael;
 - adnoddau digonol sydd wedi'u clustnodi i gadw'r amgylchedd yn lân ac yn addas i'r diben
 - manylion ynghylch sut y gall staff ofyn am lanhau ychwanegol, ar frys ac yn rheolaidd a;
 - system ar gyfer monitro cydymffurfiad â safonau glanhau.
- trefniadau effeithiol ar gyfer dadheintio priodol o cyfarpar ac offer arall⁷;
- darpariaeth ddigonol o gyfleusterau hylendid dwylo addas;
- bod cyflenwi a darparu dillad gwely a golchi dillad yn adlewyrchu *Health Service Guidance (HSG) (95)18 Hospital Laundry Arrangements for Used and Infected Linen*, fel y'i diwygiwyd o dro i dro [yn cael eu hadolygu yng Nghymru ar hyn

o bryd]; a

- bod polisïau a chod gwisg yn sicrhau bod dillad sy'n cael eu gwisgo gan staff wrth gyflawni eu dyletswyddau yn lân ac yn addas i'r diben. Yn benodol, dylai polisïau a chod gwisg gefnogi hylendid dwylo da.

⁷ Dylai'r arweinydd dadheintio fod yn gyfrifol am sicrhau bod rhaglen dadheintio yn cael ei gweithredu mewn perthynas â'r sefydliad a'i bod yn cymryd ystyriaeth briodol o ganllawiau cenedlaethol perthnasol. Dylai'r rhaglen dadheintio ddangos y canlynol:

- bod dadheintio dyfeisiau meddygol y gellir eu hailddefnyddio yn digwydd mewn cyfleusterau pwrpasol priodol;
- nad yw dyfeisiau a ddynodwyd fel rhai denfydd untro byth yn cael eu hailddefnyddio
- bod gweithdrefnau priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer caffael a chynnal a chadw offer dadheintio;
- bod staff yn cael eu hyfforddi mewn prosesau dadheintio ac yn cynnal cymwyseddau priodol ar gyfer eu rôl; a
- bod system fonitro ar waith i sicrhau bod prosesau dadheintio yn addas i'r diben ac yn cyrraedd y safon ofynnol.
- NODER: Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Dadheintio ar wahân a fydd yn ategu'r Cod hwn a'r polisi presennol.

Meini Prawf ar gyfer Safon 3: Rhaid i wybodaeth addas a chywir ar heintiau fod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth, rhai sy'n ymweld â hwynt a'r cyhoedd.

Mae meysydd sy'n berthnasol i ddarparu gwybodaeth o'r fath yn cynnwys:

- egwyddorion cyffredinol ar atal a rheoli heintiau ac agweddau allweddol o bolisi'r sefydliad ar atal a rheoli heintiau, sy'n cymryd anghenion cyfathrebu'r defnyddiwr gwasanaeth i ystyriaeth;
- rolau a chyfrifoldebau unigolion penodol megis gofalwyr, perthnasau ac eiriolwyr wrth atal a rheoli heintiau, i'w cefnogi wrth ymweld â defnyddwyr gwasanaeth;
- cefnogi ymwybyddiaeth a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth mewn darparu gofal yn ddiogel;
- pwysigrwydd cydymffurfio â pholisi lleol ar ymweld yn yr ysbyty fel y mae'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau;
- adrodd ar fethiannau o ran hylendid a glanweithdra;
- esboniadau o reoli digwyddiadau/achosion; a
- chyhoeddi gwybodaeth gywir, defnyddiol a pherthnasol a data sy'n ymwneud â HGGI mewn modd agored a thryloyw.

Dylai gwybodaeth gael ei datblygu gyda sefydliadau cynrychioliadol defnyddwyr gwasanaethau lleol e.e. Cynghorau Iechyd Cymuned.

Meini Prawf ar gyfer Safon 4: Rhaid darparu gwybodaeth addas, amserol a chywir ar heintiau i unrhyw berson sy'n ymwneud â darparu cymorth pellach neu ofal nyrsio/meddygol pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei symud o un sefydliad i'r llall neu o fewn yr un sefydliad.

Mae'n rhaid i gorff GIG Cymru sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth addas a digonol ar statws haint defnyddiwr gwasanaeth pryd bynnag y mae'n trefnu ar gyfer symud y defnyddiwr gwasanaeth hwnnw o ofal un sefydliad i un arall, neu o fewn sefydliad⁸, fel bod unrhyw risgiau o haint cyn lleied â phosibl i'r defnyddiwr gwasanaeth ac eraill, gan gynnwys;

- gwybodaeth gywir yn cael ei chyfathrebu mewn modd priodol a chyfrinachol;
- bod yr wybodaeth yma'n hwyluso darparu'r gofal gorau posibl, gan leihau'r risg o reolaeth amhriodol a throsglwyddo heintiau; a
- lle bo hynny'n bosibl, bod yr wybodaeth yn mynd gyda'r defnyddiwr gwasanaeth.

⁸ Rhaid cael tystiolaeth o weithio ar y cyd rhwng y tîm atal a rheoli heintiau, timau mynediad defnyddwyr gwasanaeth/rheolwyr gwelyau a gwasanaethau domestig a chyfleusterau wrth gynllunio derbyniadau, trosglwyddiadau, rhyddhau a symudiadau defnyddwyr gwasanaeth rhwng adrannau a chyfleusterau gofal iechyd eraill. Lle bo'r angen, bydd gofyn i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fod yn rhan o gynllunio o'r fath.

Meini Prawf ar gyfer Safon 5: Mae'r holl staff a gyflogir i ddarparu gofal ym mhob lleoliad yn cymryd rhan lawn yn y broses o Atal a Rheoli Heintiau.

Mae'n rhaid i gorff GIG Cymru sicrhau:

- cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod ei staff, contractwyr ac eraill sy'n ymwneud â darparu gofal yn cydweithio â'r sefydliad a chyda'i gilydd, cyn belled ag sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r sefydliad i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cod;
- bod atal a rheoli heintiau, fel y mae'n berthnasol i'w swyddogaeth, gael ei gynnwys yn y disgrifiadau swydd a'i gynnwys yn y rhaglen cynefino a diweddariadau staff yr holl weithwyr (gan gynnwys gwirfoddolwyr);
- bod contractwyr sy'n gweithio mewn manau defnyddwyr gwasanaeth yn ymwybodol o unrhyw faterion, sy'n berthnasol i'w rôl, o ran atal a rheoli heintiau a chael *caniatâd i weithio*. Mae'n rhaid i bawb sydd â mynediad at wybodaeth defnyddwyr gwasanaeth gadw cyfrinachedd;
- lle bydd staff yn ymgymryd â thriniaethau lle mae angen sgiliau megis, er enghraifft, techneg aseptic, bod staff yn cael eu hyfforddi ac yn dangos cymhwysedd cyn cael caniatâd i ymgymryd â'r triniaethau hyn yn annibynnol; a
- bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chlefydau y gellir eu hatal â brechlyn a sut y gallant amddiffyn eu hunain a defnyddwyr y gwasanaeth. (Gweler Safon 8).

Meini Prawf ar gyfer Safon 6: Darperir cyfleusterau ynysu digonol i gefnogi Atal a Rheoli Heintiau effeithiol.

- Dylai corff GIG Cymru sicrhau ei fod yn gallu darparu, neu sicrhau y darperir, rhagofalon a chyfleusterau ynysu digonol, fel sy'n briodol, sy'n ddigon i atal neu leihau lledaeniad haint. Gall hyn gynnwys cyfleusterau mewn lleoliad gofal dydd a lleoliadau gofal heb ei drefnu;
- Dylai polisiâu fod yn eu lle ar gyfer dyrannu defnyddwyr gwasanaeth i gyfleusterau ynysu, yn seiliedig ar asesiad risg lleol a chyda phrosesau mynd i lefel uwch wedi'u disgrifio'n glir. Rhaid i'r asesiad gynnwys ystyriaeth o'r angen am gyfleusterau ynysu gydag awyru arbennig;
- Dylai cyfleusterau ynysu gydag awyru arbennig weithredu yn unol â chanllawiau cenedlaethol presennol; a
- Dylai digon o staff wedi'u hyfforddi'n briodol fod ar gael i ofalu am y defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel tra bônt wedi'u hynysu.

Meini Prawf ar gyfer Safon 7: Rhaid i bolisiâu fydd yn cynorthwyo Atal a Rheoli Heintiau fod yn eu lle ac ar gael yn hwylus i'r holl staff.

Mae'n rhaid i gorff GIG Cymru, mewn perthynas ag atal a rheoli risgiau o HGGI gael polisiau craidd priodol ar waith⁹:

⁹ Nid oes angen i'r union deitlau a strwythur y gyfres o bolisiâu gael eu rhagnodi ar yr amod eu bod yn cwmpasu'r elfennau hanfodol fel y'u rhestrwyd.

Rhaid i'r polisiau craidd priodol fynd i'r afael â'r canlynol:

- rhagofalon safonol atal a rheoli heintiau;
- rheoli dod i gysylltiad ag organebau heintus yn y gwaith i, gan gynnwys Firysau a Gludir yn y Gwaed (BBVs) a phroffylacsis ôl-gysylltiol;
- techneg aseptic;
- achosion sylweddol o heintio trosglwyddadwy (sy'n cyfeirio at *Gynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy i Gymru*);
- rhagofalon yn seiliedig ar drosglwyddo (gan gynnwys rhagofalon ynysu);
- trafod a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel;
- atal dod i gysylltiad yn y gwaith â firysau a gludir yn y gwaed, gan gynnwys atal anafiadau eitmeau miniog;
- achosion a rheoli digwyddiadau, gan gynnwys cau wardiau, adrannau ac adeiladau i dderbyniadau newydd (gan gynnwys achosion tybiedig neu wedi'u cadarnhau o gastroenteritis firaol);
- polisi dadheintio (gan gynnwys defnyddio diheintyddion, offer untro a diheintio offer meddygol y gellir eu hailddefnyddio)¹⁰;

¹⁰ Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Dadheintio ar wahân a fydd yn ategu'r Cod hwn a'r polisi presennol.

- rhagnodi a stiwrdaeth gwrthficrobaidd¹¹;

¹¹ Bydd cynllun gweithredu Cymru gyfan yn ymdrin â defnydd gwrthficrobaidd ac ymwrthedd yn cael ei ddwyn ymlaen a fydd yn ategu'r Cod hwn a pholisi presennol ac yn cefnogi ymateb Cymru i Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y DU.

- adrodd ar HGGI i gynlluniau gwyliadwriaeth cenedlaethol gorfodol fel *digwyddiadau niweidiol difrifol* neu *dim annisgwyl* fel sy'n briodol¹²; a

¹² Gweithio i Wella, Llywodraeth Cymru, Fersiwn 2, Ebrill 2012.

- rheoli heintiau ag organebau effor penodol, gan ystyried asesu risg ac epidemioleg lleol. Rhaid i'r heintiau hyn gynnwys, o leiaf, *MRSA*, *Clostridium difficile*, Organebau sy'n gwrthsefyll Cyffuriau (MDRO) ac enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy. Gellir cynnwys *MRSA* o fewn MDRO neu ar wahân; dylai polisi o'r fath gynnwys darpariaeth ar gyfer *Enterobacteriaceae* sy'n gwrthsefyll *Carbapenem*.

Mae'n rhaid cadw polisiâu'n gyfoes ac archwilio cadw at bolisi yn rheolaidd fel rhan o raglen archwilio barhaus; a dylid bwydo canlyniadau'r archwiliad yn ôl mewn modd amserol; rhaanu enghreifftiau o arfer da; a chymryd camau pan fydd angen cywiro arfer gwael.

Meini Prawf ar gyfer Safon 8: Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, mae staff yn rhydd o heintiau y gellir eu dal neu eu trosglwyddo yn y gwaith, ac yn cael eu hamddiffyn rhag dod i gysylltiad â heintiau o'r fath.

Dylai cyrff GIG Cymru sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn eu lle mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau fel bod:

- yr holl staff yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol¹³ a ¹⁴ neu fynediad at gyngor iechyd galwedigaethol priodol;

¹³ Dylai gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gyfer staff gynnwys y canlynol:

- sgrinio seiliedig ar risg ar gyfer clefydau trosglwyddadwy ac asesu imiwnedd i haint ar ôl cynnig amodol o gyflogaeth a gwyliadwraeth iechyd parhaus ;
- cynnig imiwneiddiadau perthnasol; a
- chael trefniadau yn eu lle ar gyfer adolygu statws imiwneiddio staff yn rheolaidd a darparu brechiadau i staff yn ôl yr angen yn unol ag Imiwneiddio yn erbyn clefydau heintus (*Y Llyfr Gwyrdd*) a chanllawiau eraill Llywodraeth y DU/Llywodraeth Cymru.

¹⁴ Dylai gwasanaethau iechyd galwedigaethol o ran feirysau a gludir yn y gwaed (BBV) gynnwys y canlynol:

- cael trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli staff gofal iechyd sydd wedi'u heintio â hepatitis B neu C neu HIV a chynghori am addasrwydd i weithio a monitro yn ôl yr angen, yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU/Llywodraeth Cymru;
- cysylltu gyda Phanel Ymgynghorol y DU ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd sydd wedi'u heintio â feirysau a gludir yn y gwaed pan fydd angen cyngor ar weithdrefnau y gall staff a heintiwyd gan feirysau a gludir yn y gwaed eu cyflawni, neu pan fydd angen cyngor ar olrhain, hysbysu a chynnig profion feirysau a gludir yn y gwaed i ddefnyddiwr gwasanaeth;
- asesiad risg ac atgyfeirio priodol ar ôl dod i gysylltiad damweiniol â gwaed a hylifau'r corff yn y gwaith; a
- rheoli dod i gysylltiad â haint yn y gwaith, a all gynnwys darpariaeth ar gyfer triniaeth mewn argyfwng a thu allan i oriau, o bosibl ar y cyd â gwasanaethau damweiniau ac achosion brys ac arbenigwyr ar-alwad atal a rheoli heintiau.

- polisïau iechyd galwedigaethol ar atal a rheoli heintiau trosglwyddadwy mewn staff yn eu lle;
- penderfyniadau ar gynnis imiwneiddio yn cael eu gwneud ar sail asesiad risg lleol fel y'i ddisgrifiwyd yn Imiwneiddio rhag clefydau heintus (*Y Llyfr Gwyrdd*). Dylai cyflogwyr sicrhau bod brechiadau ar gael yn rhad ac am ddim i gyflogeion os yw asesiad risg yn dangos angen (Rheoliadau COSHH 2002); a
- bod cofnod wedi'i wneud o'r brechiadau perthnasol.

Meini Prawf ar gyfer Safon 9: Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi a'u haddysgu'n briodol mewn Atal a Rheoli Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

- Caiff egwyddorion ac arferion atal a rheoli heintiau eu cynnwys mewn rhaglenni cynefino a hyfforddiant ar gyfer pob aelod newydd o staff.
- mae yno addysg barhaus briodol ar gyfer staff presennol (gan gynnwys staff cymorth, gwirfoddolwyr, staff asiantaeth/locwm a staff a gyflogir gan gontractwyr), a ddylai ymgorffori egwyddorion ac arferion atal a rheoli heintiau;
- mae gan y sefydliad gynllun cyflenwi addysg a hyfforddiant wedi'i ddogfennu;
- mae yno gofnod o hyfforddiant a diweddariadau ar gyfer yr holl staff; a
- caiff cyfrifoldebau pob aelod o staff ar gyfer atal a rheoli heintiau eu hadlewyrchu yn eu disgrifiad swydd ac mewn unrhyw gynllun datblygu neu arfarniad personol.

5. Geirfa

Systemau trin aer	Systemau peirianegol i ddarparu awyru cyffredinol ac arbenigol mewn lleoliadau gofal iechyd.
Rhwb dwylo alcohol (ABHR)	Gel, ewyn neu hylif sy'n cynnwys alcohol sy'n cael ei rwbio i mewn i'r dwylo fel dewis amgen i olchi dwylo gyda sebon a dŵr.
Organeb effro	Organeb sydd wedi'i adnabod fel un a allai fod yn arwyddocaol o ran arferion atal a rheoli heintiau. Mae enghreifftiau o organebau effro yn cynnwys <i>Stafylococws awrëws</i> sy'n gwrthsefyll <i>Methisilin</i> (MRSA), <i>Clostridium difficile</i> (C.diff) a <i>Streptococws grŵp A</i> .
Gwrthficrobaidd	Cyfrwng sy'n lladd micro-organebau, neu sy'n eu hatal rhag tyfu. Mae gwrthfotigau a diheintwyr yn gyfryngau gwrthficrobaidd.
Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd	Rhaglen gydlynus sy'n hyrwyddo'r denfydd priodol o gyfryngau gwrthficrobaidd (gan gynnwys gwrthfotigau), gwella canlyniadau i gleifion, lleihau ymwrthedd microbaidd, a lleihau lledaeniad heintiau a achosir gan organebau sy'n gwrthsefyll cyffuriau.
Techneg Aseptig	Gweithdrefn gofal iechyd lle caiff rhagofalon eu cymryd i atal y claf rhag dod i gysylltiad â micro-organebau. Gall hyn gynnwys defnyddio menig ac offerynnau di-heintiedig.
Feirysau a gludir yn y gwaed (BBV)	Firysau sy'n cael eu cludo neu eu trosglwyddo yn y gwaed, er enghraifft, Hepatitis B, Hepatitis C a HIV.
<i>Clostridium difficile</i> (C.diff)	Cyfrwng heintus (bacteriwm) a all achosi dolur rhydd. Mae'n HGGI cyffredin.
Dadheintio	Dileu, neu ladd pathogenau ar eitem neu arwyneb i'w wneud yn ddiogel ar gyfer trin, aildefnyddio neu waredu drwy lanhau, diheintio a/neu sterileiddio
Diheintydd	Cemegyn glanhau a ddefnyddir i gael gwared ar gyfryngau heintus o wrthrychau ac arwynebau.
Diheintio	Proses i ddinistrio neu ddileu cyfryngau heintus o gwrthrych neu arwyneb. Nid yw Diheintio fel arfer yn dinistrio sborau.
Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd (HGGI)	Heintiau sy'n digwydd o ganlyniad i ofal neu driniaeth meddygol, mewn unrhyw leoliad gofal iechyd.
Heintio	Goresgynaid y corff gan gyfryngau heintus.

IPC	Atal a Rheoli Heintiau.
Ynysu	Gwahanu cleifion yn gorfforol i atal lledaeniad yr haint.
MRSA	Straen o'r cyfrwng heintus (bacteriwm) <i>Staphylococws awrëws</i> sy'n gwrthsefyll amryw o'r gwrthfotigau a ddenfyddir yn gyffredin i drin heintiau.

NLIAH	Yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd blaenorol
Dod i gysylltiad â rhywbeth yn gwaith	Gweithwyr gofal iechyd neu staff gofal yn dod i gysylltiad â gwaed neu hylifau'r corff yn ystod eu gwaith.
Achosion	Pan fydd dau neu fwy o achosion cysylltiedig o'r un salwch neu pan fydd mwy o achosion na'r nifer a ddisgwylir
Proffylacsis ôl-gysylltiol	Cymryd meddyginiaethau gwrth-BBV (lle maent yn bodoli, yn dibynnu ar y feirws penodol) cyn gynted â phosibl ar ôl efallai i chi ddod i gysylltiad â firysau BBV er mwyn ceisio lleihau'r siawns o gael eich heintio.
Dadansoddiad o wraidd y broblem	Fframwaith ar gyfer adolygu digwyddiadau diogelwch cleifion, gan nodi eu hachosion sylfaenol a dysgu oddi wrthynt.
Eitemau Miniog	Offerynnau miniog a ddefnyddir mewn lleoliadau gofal iechyd fel nodwyddau, ffleimiau a chyllyll llawfeddygol.
Defnydd Untro	Dyfeisiadau a ddefnyddir ar glaf unigol yn ystod triniaeth unigol ac yna eu taflu. Nid ydynt wedi'u bwriadu i gael eu hailbroseu a'u defnyddio eto, hyd yn oed ar yr un claf.
Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiau (SICP)	Y mesurau atal a rheoli heintiau gofynnol er mwyn lleihau'r perygl o drosglwyddo micro-organebau o ffynonellau cydnabyddedig a heb eu cydnabod o gyfryngau heintus a allai fod yn bresennol yn y gwaed, hylifau eraill y corff, secretiadau, ysgarthion, croen nad yw'n gyfan a philenni mwcaidd.
Rhagofalon Seiliedig ar Drosglwyddiad	Cyfres o fesurau atal a rheoli heintiau y dylid eu rhoi ar waith pan fydd yn hysbys neu lle'r amheuir bod cleifion wedi'u heintio â chyfrwng heintus. Dylai'r rhain gael eu rhoi ar waith, yn ôl yr angen, yn ogystal â Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiau (SICP) ym mhob lleoliad gofal.
Gastroenteritis Fiol	Salwch gastroberfeddol gyda symptomau sy'n cynnwys dolur rhydd a/neu chwydu lle mae'n hysbys neu lle tybir mae haint firaol yw'r achos e.e. Norofirws.
Cynllun Diogelwch Dŵr	Gofyniad ar holl sefydliadau'r GIG i gael cynllun ar gyfer rheoli risgiau o heintiau penodol a gludir mewn dŵr megis Legionella a Pseudomonas.

6. Cyfeiriadaeth a darllen pellach

6.1 Mae'r rhan fwyaf o'r deunyddiau cyfeiriol a darllen pellach ar gael trwy'r Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru (WHAIP) Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI): Cyfres Canllawiau. Maent i'w gweld ar wefan rhyngwryd WHAIP (Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn:

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=379&pid=38960>

6.2 Mae cynnwys y gyfres canllawiau hyn yn cynnwys dolenni i'r canlynol:

- Presgripsiynu Gwrthficrobaidd
- Amgylchedd Adeiledig (gan gynnwys Memoranda Technegol Iechyd Cymru)
 - Gwastraff
- Dadheintio/Defnydd Untro
- Ymarfer Clinigol
 - Cathetr cysylltiedig â haint ar y llwybr wrinol (CAUTI)
 - Cathetrau gwythiennol canolog
 - Achosion
 - Cathetrau fasgwlaidd perifferol
 - Rhagofalon safonol
 - Haint ar safle llawfeddygol
- Penodol i organeb/clefyd/cyfrwng
 - *Clostridium difficile*
 - Clefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD neu vCJD)
 - Streptococci Grŵp A
 - Y Ffliw
 - MERS Novel Coronavirus
 - MRSA
 - Organebau sy'n gwrthsefyll cyffuriau (MDRO)
 - Norofirws
 - Twbercwlosis
- Amgylcheddau penodol
 - Cartrefi Gofal
 - Carchardai
- Dogfennau Strategol Atal Rheoli Heintiau

6.3 Mae Deddfwriaeth Iechyd a Dioglewch ar gael trwy'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: <http://www.hse.gov.uk/index.htm>

6.4 Mae Deddfwriaeth Bwyd ar gael trwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd: <http://www.food.gov.uk/wales/>

6.5 Imiwneiddio rhag clefydau heintus (Y Llyfr Gwyrdd): <https://www.gov.uk/government/collections/immunisation-against-infectious-disease-the-green-book>